



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf Morgannwg
Cwm Taf Morgannwg
University Health Board



CREATING
HEALTH




IMPROVING
CARE




INSPIRING
PEOPLE



SUSTAINING
OUR FUTURE



HAWLIO CREDYD PENSIWN YNG NGHWM TAF MORGANNWG



ADRODDIAD SPRINT ARLOESI.

PROSIECT AMLSEFYDLIADOL YN YMWNEUD Â'R NIFER SY'N MANTEISIO AR GREDYD PENSIWN YN CTM, GAN WELLA CANLYNIADAU ARIANNOL, IECHYD A THAI I BENSIYNWYR.

CWRDD Â'R TÎM

Mae ein prosiect amlsefydliadol yn ymroddedig i wella canlyniadau ariannol, iechyd a thai i bensiynwyr yn rhanbarth CTM. Drwy weithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau, ein nod yw mynd i'r afael â'r bwlch yn y nifer sy'n hawlio Credyd Pensiwn ymhlith unigolion cymwys.

Mae ein hymdrechion wedi arwain at enillion ariannol sylweddol i'n cleientiaid ac wedi gwella'r lles cyffredinol trwy ymyriadau wedi'u targedu ac allgymorth cymunedol.

AGE CONNECTS MORGANNWG

BAVO
Bridgend Association of Voluntary Organisations
Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr

CYMDEITHAS SEFYDLIAD GWIRFODDOL PEN-Y-BONT AR OGWR

BRIDGEND CARERS CENTRE

CYMDEITHAS PEN-Y-BONT AR OGWR

Bridgend County Care & Repair
Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont

Cwm Taf Care & Repair

GOFAL A THRWSIO SIR PEN-Y-BONT AR OGWR

GOFAL A THRWSIO CWM TAF

cyngor ar bopeth citizens advice Merthyr Tydfil

CYNGOR AR BOPETH MERTHYR TYDFIL

cyngor ar bopeth citizens advice Rhondda Cynon Taff

CYNGOR AR BOPETH RHCT

GIG CYMRU NHS WALES

BIP CTM

Adran Gwaith a Phensiynau
Department for Work & Pensions

ADRAN GWAITH A PHENSIYNAU

Hafod
HOUSING

MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TYDFUL

CBS MERTHYR TYDFIL

TÎM IECHYD CYHOEDDUS CTM

Cwm Taf Morgannwg
Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership

PARTNERIAETH RANBARTHOL

CBS MERTHYR TYDFIL

CBS RHONDDA CYNON TAF

RHA

CYMDEITHAS TAI RHONDDA

Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

CYMOEDD I'R ARFORDIR

RIC Hub

Cysylltu Trawsfurfio Cymell
Hosted by ICTM
Endorsed By RPB
Connect Transform Motivate

TABL CYNNWYS

- Crynodeb Gweithredol
- Cefndir
- Pwrpas
- Ffrydiau Gwaith
- Cyfathrebu
- Pwyntiau Dysgu Allweddol
- Argymhellion
- Casgliad
- Astudiaethau
Achos



CRYNODEB GWEITHREDOL

Mewn ymateb i'r ffaith bod taliadau tanwydd gaeaf Llywodraeth y DU yn 2024 wedi dod i ben yng Nghymru a Lloegr, aeth ein prosiect amlsefydliadol i'r afael i bob pwrpas â'r bwch yn y nifer sy'n hawlio Credyd Pensiwn ymhlith unigolion cymwys yng Nghwm Taf Morgannwg (CTM). Gyda bron i **1** o bob **5** o unigolion hŷn yng Nghymru yn byw mewn tldi ac amcangyfrif bod **7,000 o bobl** yn CTM nad ydynt yn hawlio'r Credyd Pensiwn y mae ganddynt hawl iddo, nod ein menter, a arweiniwyd gan y tîm arloesi yn CTM, ac a ysgogwyd gan ymdrech ar y cyd rhwng timau iechyd y cyhoedd, cynghorau lleol, ac amrywiol elusennau a sefydliadau, oedd gwella canlyniadau ariannol ac iechyd i bensiynwyr.

Llwyddodd y sbrint Arloesi i nodi **689** o gleifion â chyflyrau iechyd anadlol, **6,768** o achosion o ymdrechion allgymorth trwy ymgysylltu uniongyrchol, aseswyd a chefnogwyd **1,890 o gleientiaid**, gan sicrhau cynnydd incwm wedi'i gadarnhau gwerth cyfanswm o **£1,655,551.83**. Yn ogystal, rydym yn rhagweld enillion incwm blyneddol pellach o **£961,103.19** yn tarddu o geisiadau sydd yn yr arfaeth, sy'n amlygu'r effaith ariannol sylweddol a'r cymorth ychwanegol a ddarperwyd i gymuned CTM.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae'r ffocws yn parhau i fod ar optimeiddio darpariaeth gwasanaethau trwy lwybrau atgyfeirio clir, ehangu'r gwaith cyfathrebu, ymgorffori cysylltiadau data i'r drefn arferol, ac archwilio llwybrau newydd ar gyfer ymgyrchoedd ymgysylltu ac ymwybyddiaeth ymhlith pensiynwyr.



Labour said absolute pensioner poverty had increased by 300,000 under the previous Conservative-led governments (Peter Byrne/PA) (PA Wire)

Er bod y fenter lwyddiannus hon yn amlygu cryfder cydweithredu o ran dod ag effeithiau cadarnhaol sylweddol i bobl yn CTM, mae cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd. Rhaid inni barhau â'n hymdrechion i gefnogi'r unigolion sy'n weddill, fel dyfyniad Mrs Jones isod sy'n dal i fod angen cymorth gan ein tîm amlsefydliadol.

Allwn i ddim fod wedi gwneud cais am Gredyd Pensiwn heb gymorth y Llywiwr Cymunedol, doeddwn i ddim yn gwybod ble i ddechrau yn enwedig gyda'r cyfrifiadur.

Rwy'n gwerthfawrogi'r gwaith rydych chi wedi'i wneud i mi..Mae wedi gwneud gwahaniaeth enfawr. Rwy'n gwybod y gallaf i gysylltu â chi os bydd angen unrhyw help arnaf yn y dyfodol.

Diolch o galon!

CEFNDIR



Yn 2024, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y bydd y taliad tanwydd gaeaf yng Nghymru a Lloegr yn destun prawf modd, gan olygu na fydd cynifer â 2 filiwn o bensiynwyr bellach yn cael y taliad hwn ledled Cymru a Lloegr. Mae bron i 1 o bob 5 o bobl hŷn yng Nghymru yn byw mewn tldi. Ym mis Tachwedd 2022, tynnodd y Comisiynydd Pobl Hŷn sylw at y ffaith nad yw hyd at 80,000 o bobl hŷn yng Nghymru yn cael Credyd Pensiwn y mae ganddynt hawl iddo, ac nad yw tua 7,000 o bobl hŷn yn CTM yn ei hawlio. Mae Credyd Pensiwn yn darparu arian ychwanegol a all helpu gyda chostau byw i bobl dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth ac sydd ar incwm isel, sy'n werth £65 yr wythnos ar gyfartaledd i'r rhai sy'n gymwys ac yn datgloi hawliadau eraill sy'n darparu cymorth ariannol pellach.

Mae Credyd Pensiwn yn fudd-dal porth, sy'n golygu os yw unigolyn yn gymwys i gael Credyd Pensiwn, bydd yn gymwys yn awtomatig i gael lwfansau eraill, sy'n agor opsiynau cymorth eraill er mwyn gwella ansawdd bywyd a lles cyffredinol. Fodd bynnag, nid yw hawlio'r hawliau hyn yn canolbwyntio'n unig ar leihau baich ariannol, gall hefyd fod o fudd sylweddol i'w hiechyd a'u lles.

Bob blwyddyn, amcangyfrifir bod y GIG yn gwario £1.4 biliwn ar drin salwch sy'n gysylltiedig â byw mewn tai oer neu laith, gan y gall y cyflyrau hyn waethygu asthma, mathau eraill o salwch anadlol, a chynyddu'r risg o glefyd y galon a digwyddiadau cardiaidd. Maent hefyd yn gwaethygu problemau cyhyrsgerbydol fel arthritis. Yn ogystal, gall effaith byw mewn amgylcheddau o'r fath fod yn gysylltiedig ag iechyd meddwl, gyda chyfraddau uwch o iselder a phryder ymhlith unigolion yr effeithir arnynt

Mae nifer o elusennau yn CTM, a'r partneriaid rhanbarthol ehangach, yn cydweithio i dargedu pensiynwyr bregus sy'n byw yn CTM, a all fod yn gymwys i wneud cais, a'u cefnogi gyda cheisiadau perthnasol. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu amcanion y prosiect, y dull strategol a ddefnyddiwyd, yr heriau a wynebwyd, a'r canlyniadau a gyflawnwyd gydag argymhellion yn y dyfodol.

PWRPAS

Nod y prosiect amlsefydliadol hwn oedd;

1. Cynyddu ymwybyddiaeth am Gredyd Pensiwn a'r nifer sy'n manteisio arno ymhlith unigolion cymwys yn rhanbarth CTM.
2. Defnyddio data iechyd y boblogaeth leol i dargedu'r unigolion a nodwyd yn CTM, gan amlygu pwysigrwydd ymyriadau wedi'u targedu er mwyn gwella heriau iechyd.
3. Mesur y budd ariannol cynyddol a ddaw yn sgil hyn.



Press release

Nearly fifty thousand extra pensioners receiving vital Pension Credit support following surge in claims processed

New figures published today [Thursday 27 February] show a significant spike in Pension Credit applications following a DWP campaign to boost uptake, the highest since comparisons began in 2020.

AMSERLEN

Mae'r canlynol yn rhoi trosolwg o ddigwyddiadau a mentrau sydd â'r nod o fynd i'r afael â dod â'r Lwfans Tanwydd Gaeaf i ben a hyrwyddo manteisio ar y Lwfans Tanwydd Gaeaf a Chredyd Pensiwn, yn CTM. Yn ystod y cyfnod hwn gwelwyd cyfres o ymdrechion ar y cyd ymhlith rhanddeiliaid amrywiol i hybu ymwybyddiaeth a chefnogaeth yn y gymuned.

Beth A Wnaed	Lle cafodd ei gynnal	Pam mae ei angen arnom
22 Awst - Cyhoeddi terfyniad y Lwfans Tanwydd Gaeaf.	Cyhoeddiad y Llywodraeth	Rhoi gwybod i'r cyhoedd am newidiadau sy'n effeithio ar hawl i fudd-daliadau, yn enwedig i'r rhai sy'n dibynnu ar y lwfans hwn.
17 Medi - Cynhaliwyd trafodaeth gychwynnol gydag Age Connects Morgannwg.	CTM UHB / Age Connects Morgannwg	Archwilio ymdrech ar y cyd i fynd i'r afael ag effaith terfynu'r Lwfans Tanwydd Gaeaf a heriau eraill sy'n ymwneud â budd-daliadau ar bobl o fewn CTM.
18 Medi - Cytunodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar ddull 3 darn o Darged, Cyffredinol a Chymunedol.	Grŵp Llywio	Mynd i'r afael ag anghenion cymunedol yn effeithiol ac ymgysylltu â gwahanol grwpiau yr effeithir arnynt gan newidiadau mewn budd-daliadau, gan sicrhau cymorth cynhwysfawr
23 Medi - Cynhaliwyd cyfarfod gyda CTM Public Health.	Grŵp Llywio	Trafod goblygiadau iechyd y cyhoedd a strategaethau cydweithredol mewn ymateb i newidiadau i fudd-daliadau.
24ain Medi - Cyfarfod Credyd Pensiwn cyntaf yn cynnwys CBSRhCT, CTM Public; Iechyd, RIC Hub, ac Age Connects Morgannwg, gyda chyfarfodydd wythnosol yn cael eu cynnull.	Grŵp Llywio	Cydlynu ymdrechion a symleiddio prosesau ar gyfer optimeiddio'r nifer sy'n hawlio Credyd Pensiwn.
9 Hydref - Sgript yn cael ei rannu gan dîm Iechyd y Cyhoedd.	CTM BIP/Tîm Cyfathrebu RP	Safoni cyfathrebu a sicrhau bod gwybodaeth gywir yn cael ei lledaenu ynghylch Credyd Pensiwn.
14eg Hydref - Wythnos Credyd Pensiwn.	CTM	Hyrwyddo ymwybyddiaeth a'r nifer sy'n hawlio Credyd Pensiwn ymhlith unigolion cymwys.
16 Hydref - Trafod cynllun tudalen we yng nghyfarfod y Bartneriaeth Ranbarthol; datblygwyd cynllun Sioe Deithiol ACM.	Grŵp Llywio	Gwella adnoddau ar-lein a gweithgareddau allgymorth ar gyfer ymgysylltu a chymorth cymunedol.
25 Hydref - Cwblhau dogfen Cwestiynau Cyffredin ar gyfer gwefan RP.	Grŵp Llywio	Darparu atebion cynhwysfawr i gwestiynau cyffredin, gan helpu i ddeall a llywio newidiadau i fudd-daliadau.
5ed Tachwedd - Trafodaeth am sgript iechyd y cyhoedd ar gyfer Phillip Daniels	Grŵp Llywio	Mireinio negeseuon a sicrhau cyfathrebu effeithiol o fewn cyd-destunau iechyd cyhoeddus.
6ed Tachwedd - Drafft o wefan Partneriaethau Rhanbarthol wedi ei greu.	Partneriaethau Rhanbarthol	Hwyluso mynediad i wybodaeth ac adnoddau ar gyfer cefnogaeth gymunedol a chydweithio.
8fed Tachwedd - Fideo gan Phillip a Rachel ar bwysigrwydd Credyd Pensiwn; derbyniad wedi ei gwblhau; Lansiodd CTM Communications y fenter yn ystod 'Mae'n Wythnos Siarad am Arian'.	Tîm Cyfathrebu CTM/TP	Defnyddio offer amlygrwng i godi ymwybyddiaeth ac annog y defnydd o Gredyd Pensiwn ymhlith y gynulleidfa darged.
20 Tachwedd - Diweddariad gan CBS Merthyr: Wythnos Credyd Pensiwn wedi'i chynnal, yn parhau; sesiynau galw heibio wythnosol, a sesiwn ymwybyddiaeth ar y cyd.	Merthyr Tydfil Town Centre Hub, Treharris, and across the borough.	Cynnal ymgysylltiad a chefnogaeth ar gyfer hawliadau Credyd Pensiwn, gan sicrhau cyrhaeddiad cymunedol ehangach.
16 Hydref - Digwyddiad budd-daliadau wedi'i gynnal gan Gofal a Thrwisio Sir Pen-y-bont ar Ogwr ac Age Connects Morgannwg	Maesteg, Bridgend	Darparu cefnogaeth ar lawr gwlad a chodi ymwybyddiaeth am hawliau a gweithdrefnau budd-daliadau.
10fed Ionawr - Aeth Age Connects Morgannwg a Cyngor ar Bopeth ar raglen Radio GTFM i drafod PC.	Sioe radio GTFM	Trafod y pwnc Credyd Pensiwn a budd-daliadau cysylltiedig eraill i bensiynwyr.
20 Ionawr - Age Connects Morgannwg a chan Ddigwyddiad Gofal a Thrwisio Sir Pen-y-bont ar Ogwr	Neuadd Goffa Llangrallo	Ymgysylltu â'r gymuned a chynnig cymorth gydag ymholiadau a cheisiadau am fudd-daliadau.
14 Chwefror - Digwyddiad Age Connects Morgannwg	Pontyclun Community Centre	Cynorthwyo cleientiaid gyda chyngor budd-daliadau a sicrhau mynediad ehangach i gefnogaeth angenrheidiol.
Age Connects Morgannwg & by Digwyddiad Gofal a Thrwisio Sir Pen-y-bont ar Ogwr	Maesteg Leisure Centre	Darparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer ymholiadau budd-daliadau a hyrwyddo ymwybyddiaeth gymunedol

FFRWD WAITH 1



TÎM IECHYD CYHOEDDUS BIP CTM

Gweithgareddau ac Allgymorth:

- Wedi helpu i werthuso'r fenter gyffredinol, gan sicrhau monitro ac adrodd effeithiol ar ganlyniadau.
- Creodd Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd ffilm hyrwyddo i hybu ymwybyddiaeth.
- Dosbarthwyd poster Llyw. Cymru i bob darparwr gofal sylfaenol i wella ymwybyddiaeth.
- Cydweithio â'r tîm gwybodeg a nododd ryw 700 o gleifion (>65 oed) ar y rhestr resbiradol i gysylltu â nhw yn rhagweithiol
- Wedi gwneud cais am gyllid ychwanegol i gefnogi digwyddiadau cymunedol parhaus ac ymdrechion allgymorth.
- Wedi darparu archwiliadau iechyd a hyfforddiant ffordd o fyw mewn digwyddiadau cymunedol i gefnogi lles preswylwyr .
- Wedi datblygu neges Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (MECC) i'w rhannu â rhanddeiliaid, gan hybu'r nifer sy'n hawlio Credyd Pensiwn.

Effaith

- Mae'r ymdrechion allgymorth ac ymgysylltu cymunedol a ddechreuodd ar unwaith wedi dechrau meithrin gwell arferion iechyd ac ymwybyddiaeth ariannol ymhlith y boblogaeth darged.
- Mae'n sefydlu fframwaith cynaliadwy ar gyfer cymorth ac ymgysylltiad parhaus i'n poblogaeth, gan gyfrannu at wella iechyd cymunedol yn gyffredinol a sefydlogrwydd ariannol.
- Wedi targedu cleifion resbiradol bregus dros 65 oed ynghyd â'u teuluoedd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cymorth ariannol sydd ar gael yn ogystal ag atgyfeirio i'r trydydd sector i gefnogi eu cais fel y bo'n briodol.

Canlyniadau allweddol:

- Nodwyd 689 o gleifion 65 oed neu hŷn a oedd wedi bod mewn cysylltiad â'r tîm anadlol yn y bwrdd iechyd gan ddefnyddio data a oedd ar gael gan y timau gwybodeg.
- Cysylltodd gwasanaethau cymorth iechyd y cyhoedd CTM yn llwyddiannus ag 85% o'r cleifion a nodwyd
- O'r rhai y cysylltwyd â nhw'n llwyddiannus (585 o unigolion):
 - Roedd 30% eisoes yn cael pensiwn
 - Roedd 25% wedi hunan-nodi eu bod dros y trothwy incwm ar gyfer credyd pensiwn
 - Cyfeiriwyd 19% at wefan y Llywodraeth i wirio cymhwyster/gwneud cais
 - Cyfeiriwyd 15% at Gofal a Thrwsio neu Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) am
 - Gymorth ychwanegol i wirio cymhwysedd/cwblhau'r cais.
- Bwriedir cwblhau gwerthusiad dilynol tua diwedd 2025 i gasglu gwybodaeth ychwanegol am llwyddiant wrth wneud cais am gredyd pensiwn

FFRWD WAITH 2



AGE CONNECTS MORGANNWG

Gweithgareddau ac Allgymorth/ Dyddiadau Allweddol:

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi ein cymuned trwy gyfres o ddigwyddiadau allgymorth budd-daliadau a gynlluniwyd i gynorthwyo cleientiaid gorlif. Mae'r digwyddiadau hyn yn gyfle i'r rhai sy'n mynychu gael arweiniad a chymorth i gael y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt. Yn ogystal â'n sesiynau rheolaidd yn Llyfrgell Aberdâr a Chanolfan Ddinesig Cyngor Merthyr, rydym wedi trefnu tri digwyddiad atodol tua dechrau 2025 ar draws gwahanol leoliadau i ddiwallu anghenion ein cymuned yn well.

Effaith

Er na ddenodd ein digwyddiadau cymunedol ym mis Ionawr a mis Chwefror gynifer ag a ragwelwyd, mae'r gwelededd cynyddol trwy gyfryngau cymdeithasol ac ar lafar wedi llwyddo i greu nifer uwch o ymholiadau am fudd-daliadau, dros y ffôn ac yn bersonol.

Canlyniadau allweddol:

Ers cael cyllid ychwanegol ym mis Hydref 2024, mae ACM wedi cyflawni'r canlynol rhwng 1 Hydref 2024 a 27 Chwefror 2025:

- Wedi cynnal asesiadau budd-daliadau ar gyfer 684 o gleientiaid.
- Wedi cyflwyno ceisiadau am fudd-daliadau ar gyfer 451 o gleientiaid, gan gynnwys 25 o geisiadau Credyd Pensiwn, 164 o geisiadau Lwfans Gweini, 19 o geisiadau Lwfans Gofalwr, 19 o geisiadau adolygu Lwfans Byw i'r Anabl, a 34 o adolygiadau Taliad Annibyniaeth Personol.
- Wedi sicrhau cynnydd incwm wedi'i gadarnhau o £847,988.24* i gleientiaid.
- Wedi nodi enillion incwm cyffredinol posibl o dros £1 miliwn y flwyddyn.
- Ymhlith yr achosion hyn, nododd 110 o gleientiaid broblemau anadlol cronig fel COPD, asthma, a ffibrosis yr ysgyfaint. Mae ein tîm wedi canolbwyntio ar wella eu hincwm cartref, yn enwedig o ystyried pryderon ynghylch colli'r Taliad Tanwydd Gaeaf a heriau byw mewn amodau oer tra'n rheoli anawsterau anadlu mewn cartrefi oer.

**Methodoleg ar gyfer Cyfrifo Enillion Incwm ar draws ACM, Gofal a Thrwsio a Chyngor ar Bopeth:*

- *Ceisiadau llwyddiannus gwirioneddol rhwng Hydref a Mawrth (hyd yma)*
- *Ffigurau rhagamcanol yn seiliedig ar ganlyniadau cyfartalog ar gyfer ceisiadau sy'n disgwyl penderfyniad (yn y system ar adeg adrodd)*
- *Sylwch fod hyn yn cynnwys Lwfans Gweini yn ogystal â bod cleientiaid wedi cael eu hasesu ar gyfer yr holl fudd-daliadau yn y cyfnod hwnnw ac o ganlyniad i'r ymgyrch hon*

FFRWD WAITH 3



GOFAL A THRWSIO CWM TAF

Gweithgareddau ac Allgymorth:

- Mynychwyd 5 digwyddiad Credyd Pensiwn wedi'u targedu hyd yma
- Cafwyd 39 o atgyfeiriadau uniongyrchol gan lechyd y Cyhoedd, mae'r rhain bellach yn cael eu holrhain trwy wasanaeth craidd Gofal a Thrwsio i dargedu ymyriadau i gefnogi cleientiaid gyda gwaith trwsio, cymhorthion ac addasiadau tai ac i sicrhau eu bod yn byw mewn cartref cynnes a diogel. Anfonwyd taflen Gofal a Thrwsio at y 39 cleient er mwyn iddynt gysylltu yn y dyfodol os bydd angen.
- Mae'r holl gleientiaid yr ymwelwyd â nhw yn Ch3 a Ch4 wedi cael gwiriad budd-daliadau ac wedi'u hasesu ar gyfer Credyd Pensiwn, Lwfans Gweini ac unrhyw fudd-daliadau eraill y gallent fod â hawl iddynt.
- Cafwyd cyfweiliad ar GTFM am yr ymgyrch a'r gwasanaeth Gofal a Thrwsio ehangach i wella iechyd a lles cleientiaid
- Hyrwyddwyd yr ymgyrch trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol Gofal a Thrwsio

Effaith

- Wedi gwella perthnasoedd partneriaeth i sicrhau bod cleientiaid yn cael profiad heneiddio cadarnhaol Wedi rhyddhau gohebiaeth uniongyrchol ar gyfer sicrhau cymorth Gofal a Thrwsio ar gyfer ceisiadau budd-dal
- Wedi hyrwyddo gwasanaeth Hynach nid Oerach Gofal a Thrwsio sydd â chysylltiadau uniongyrchol â Chartrefi Iach, Bywydau Iach
- Wedi sicrhau'r incwm mwyaf posibl i gleientiaid i leihau straen ariannol

Canlyniadau allweddol:

- Aseswyd 888 o gleientiaid ar gyfer gwneud y mwyaf o fudd-daliadau Gofal a Thrwsio yn Ch3 a Ch4 (hyd yma) Cyflwynwyd 49 cais am fudd-dal yn Ch3 a Ch4 (hyd yma)
- Cafwyd 31 o ddyfarniadau budd-dal llwyddiannus yn Ch3 a Ch4 (hyd yma) gwerth £174,148 y flwyddyn Mae 28 o ddyfarniadau budd-dal yn disgwyl penderfyniad a rhagamcanir uchafswm o £157,294 y flwyddyn

FFRWD WAITH 4



GOFAL A THRWSIO SIR PEN-Y-BONT AR OGWR

Gweithgareddau ac Allgymorth:

- Dosbarthu deunyddiau hyrwyddo i gleifion yn Ysbyty Tywysoges Cymru, gan gynnwys Adrannau Achosion Brys, Meddygfeydd yng Nghlystyrau'r Gogledd a'r Dwyrain a'r dalgylchoedd lle cynhaliwyd y digwyddiadau
- Presenoldeb mewn 3 digwyddiad ymgyrchu ar draws Pen-y-bont ar Ogwr
- Hyrwyddo'r ymgyrch a digwyddiadau ar gyfryngau cymdeithasol h.y. Facebook .
- Cafodd 100% o gleientiaid gynnig gwiriad budd-daliadau

Effaith

- Cafwyd 32 o atgyfeiriadau o ganlyniad uniongyrchol i fenter BIPCTM - cynigiwyd gwiriad budd-daliadau i 100% a chynigiwyd Gwiriad Cartrefi Iach er mwyn mynd i'r afael â thlodi, cartrefi llaith/oer, darparu addasiadau ac ati.
- Swyddogion Ynni Cartref sy'n rheoli atgyfeiriadau yn cynnig cyngor ar wella cartrefi oer
- 10 atgyfeiriad uniongyrchol o ddigwyddiadau'r Ymgyrch
- Cyrraedd y rhai mewn ardaloedd difreintiedig i leihau tlodi
- Dros 770 o ddilynwyr ar Facebook a arweiniodd at hoffi a rhannu ynglŷn â Digwyddiadau'r Ymgyrch Credyd Pensiwn
- Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith y tîm am bwysigrwydd budd-daliadau, iechyd a thai

Canlyniadau allweddol:

- Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnig gwiriad budd-daliadau i 100% o gleientiaid sy'n cael gwiriad cartrefi iach
- Ers 1 Hydref cynorthwywyd 34 o gleientiaid gyda cheisiadau Credyd Pensiwn:
 - O'r rhai a ddyfarnwyd (5 cais) £17,999.03
 - O'r 29 sy'n disgwyl canlyniad, rydym yn rhagweld cynnydd blynyddol o £104,394.38
- Ers 1 Hydref mae staff wedi cwblhau 210 o geisiadau budd-daliadau eraill (h.y. Gostyngiad Cartrefi Cynnes, y Dreth Gyngor, Lwfans Gweini):
 - O'r rhai a ddyfarnwyd (74 o geisiadau) £381,108.06
 - O'r rhai sy'n disgwyl canlyniad (136 o geisiadau) rydym yn rhagweld cynnydd blynyddol o £700,414.81
- O'r rhai a gafodd gymorth gyda cheisiadau budd-dal, byddai pob cleient wedi cael Gwiriad Cartrefi Iach mynd i'r afael â phryderon tai megis:
 - Atal achosion o gwmpo
 - Cartrefi oer
 - Cyngor gwresogi
 - Darparu addasiadau a/neu offer
 - Cyngor / atgyfeiriadau diogelwch tân a Charbon Monocsid ar gofrestri Blaenoriaeth
 - Atgyfeiriadau a chyfeirio ymlaen

FFRWD WAITH 5



CYNGOR AR BOPETH RHONDDA CYNON TAF (RHCT)

Gweithgareddau ac Allgymorth:

Rhwng mis Hydref 2024 a mis Chwefror 2025, mae Cyngor ar Bopeth RhCT wedi cael effaith sylweddol drwy gynnig cymorth amhrisiadwy i unigolion sy'n wynebu heriau sy'n ymwneud â materion pensiwn y wladwriaeth a chredyd pensiwn. Yn ystod y cyfnod hwn, cynorthwyodd ein tîm penodedig 284 o bobl, gan eu harwain trwy brosesau cymhleth, cynnig cyngor, a'u helpu i lywio o gwmpas cymhlethdodau eu hawliau ariannol.

Gwnaeth Cyngor ar Bopeth RhCT drefnu a chymryd rhan mewn cyfres o ddigwyddiadau cymunedol wedi'u targedu, lle buom yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd am ddim i breswylwyr ar Gredyd Pensiwn. Chwaraeodd y digwyddiadau hyn ran holl bwysig wrth ehangu ein cyrhaeddiad, lledaenu'r neges a gwneud ein gwasanaethau'n fwy hygyrch drwy ddod ag arweiniad arbenigol a chymorth ymarferol yn uniongyrchol i'r gymuned.

Effaith

Trwy ein gwaith achos a'n gwybodaeth arbenigol, rydym wedi gallu sicrhau cyfanswm o £234,308.50 mewn enillion ariannol i'r rhai rydym wedi'u cefnogi rhwng mis Hydref 2024 a mis Chwefror 2025. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith ystyrlon a chadarnhaol ar fywydau'r unigolion hynny, gan helpu i gael gwared ar straen ariannol a sicrhau bod pobl yn cael y cymorth y mae ganddynt berffaith hawl iddo. Mae hyn yn gynydd sylweddol o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd, pan wnaethom gefnogi 148 o unigolion, gan sicrhau £79,829 mewn enillion ariannol.

Canlyniadau Allweddol:

Eleni, fe wnaethom helpu mwy na dwbl y bobl; 284 o'i gymharu â 148 yn flaenorol. Ond, hefyd, rydym wedi mwy na threblu cyfanswm yr enillion ariannol, a gododd o £79,829 y llynedd i £234,308.50 eleni. Mae'r cynnydd sylweddol hwn yn nifer y bobl a gefnogwyd a'r enillion ariannol a gyflawnwyd yn adlewyrchu effeithiolrwydd ein hymagwedd, sy'n cynnwys gwiriadau budd-daliadau manwl a chymorth rhagweithiol gyda cheisiadau.

Gellir priodoli'r cynnydd yn nifer yr unigolion sy'n cael cymorth hefyd i'n hymrwymiad parhaus i gyrraedd mwy o bobl mewn partneriaeth ag Age Connects Morgannwg, Gofal a Thrwsio CTM, ASau lleol, lechyd y Cyhoedd a BIP CTM.

FFRWD WAITH 6



CYNGOR AR BOPETH MERTHYR TUDFUL

Gweithgareddau ac Allgymorth:

Gyda'r cyllid hwn, mae Cyngor ar Bopeth Merthyr Tudful wedi gallu estyn ei oriau gweithredu i gynnwys un noson yr wythnos a boreau Sadwrn. Mae'r ehangiad hwn yn caniatáu i gleientiaid ymweld â'r swyddfa neu drefnu apwyntiadau ffôn ar adegau a allai fod yn fwy cyfleus, yn enwedig os oes ganddynt berthynas sy'n gallu cynnig cymorth y tu allan i oriau arferol yn unig. O ganlyniad, rydym wedi gallu cynorthwyo 41 o gleientiaid ychwanegol, gan sicrhau cyfanswm enillion incwm o £76,000 ar eu cyfer.

Cefndir:

Roedd ein cleient, unigolyn 70 oed, yn cael trafferthion ariannol er ei fod yn cael Pensiwn y Wladwriaeth llawn. Nid oedd ganddo unrhyw ffynonellau incwm eraill ac roedd yn wynebu heriau dyddiol sylweddol oherwydd nifer o gyflyrau iechyd. Yn byw ar ei ben ei hun yn ei gartref ei hun, y mae'n berchen arno'n gyfan gwbl, nid oedd yn ymwybodol o'r cymorth ariannol sydd ar gael iddo.

Sut y gwnaethom helpu:

Cysylltodd y cleient â Chyngor ar Bopeth Merthyr Tudful am gymorth. Ar ôl trafod ei sefyllfa, nodwyd gennym ei fod yn gymwys am Lwfans Gweini ond nad oedd yn ymwybodol o'r budd-dal na'r broses ymgeisio. Rhoesom ganllawiau clir iddo ar y Lwfans Gweini, ei helpu i ddeall y meini prawf cymhwysedd, a'i gefnogi i'w hawlio. Yn ogystal, roedd y cleient yn profi caledi ariannol oherwydd costau ynni cynyddol. Fel rhan o'n dull cyfannol, rhoesom gyngor ynni wedi'i deilwra i'w helpu i reoli ei filiau'n fwy effeithiol.

Canlyniadau Allweddol:

Roedd cais y cleient am Lwfans Gweini yn llwyddiannus, gan roi cymorth ariannol ychwanegol i'w helpu i reoli ei anghenion dyddiol. Â'r lwfans hwnnw yn ei le, gwnaethom gynghori'r cleient i wneud cais am Gredyd Pensiwn, yr oedd yn gymwys i'w gael oherwydd yr Ychwanegiad Anabledd Difrifol.

O ganlyniad, cynyddodd incwm cyffredinol y cleient, gan wella ei sefydlogrwydd ariannol a lleihau ei straen. Mae bellach yn fwy sefydlog yn ariannol ac yn gallu fforddio costau byw hanfodol, gan gynnwys biliau ynni. Cyfanswm enillion incwm y cleient yw £151.10 yr wythnos, sef £7857.20 y flwyddyn.

Effaith:

Roedd y cleient yn ddiolchgar dros ben am y cymorth a gafodd gan Gyngor ar Bopeth Merthyr Tudful. Nid oedd yn ymwybodol o'r cymorth ariannol oedd ar gael iddo, a thrwy ein cymorth ni, mae ganddo bellach fwy o incwm a thawelwch meddwl ariannol. Dywedodd "Rwyf mor ddiolchgar am eich cefnogaeth a'ch cymorth, ni fyddwn wedi gwybod bod y budd-dal hwn ar gael i mi yn fy sefyllfa i, diolch". Mae'r achos hwn yn amlygu'r rôl hollbwysig rydym yn ei chwarae o ran cefnogi unigolion agored i niwed, gan sicrhau eu bod yn cael y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt, a gwella eu lles cyffredinol.

FFRWD WAITH 7



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF (CBS RHCT)

Gweithgareddau ac Allgymorth:

Wrth baratoi ar gyfer Wythnos Credyd Pensiwn, gweithio'n fewnol ac yn lleol gyda chymunedau, ac yn rhanbarthol gyda BIP CTM a chynghorwyr wedi'u comisiynu i dargedu grwpiau penodol sydd mewn perygl trwy rannu gwybodaeth.

Meysydd Ffocws:

- Wedi'i Dargedu - Gweithio'n lleol gyda gwasanaethau mewnol i nodi aelwydydd penodol:
 - Sicrhau bod preswylwyr sy'n hysbys i'r gwasanaethau oedolion yn ymwybodol o'r angen i wirio cymhwysedd eu cartref.
 - Sicrhau bod preswylwyr y gwyddys eu bod yn derbyn Gostyngiad Treth y Cyngor ac o oedran pensiwn/yn bodloni'r meini prawf oedran ar gyfer credydu pensiwn, yn ymwybodol o'r angen i wirio cymhwysedd eu cartref.
 - Sicrhau bod Gofalwyr ffurfiol ac anffurfiol sy'n hysbys i'r Awdurdod Lleol yn ymwybodol o'r angen i wirio cymhwyster eu cartref neu'r person sy'n derbyn gofal. Anfonwyd e-bost trwy'r Prosiect Cefnogi Gofalwyr.
- Cyffredinol – Gweithio'n ehangach i roi gwybod i breswylwyr RhCT:
 - Postio'n rheolaidd ac fel mater o drefn ar Sianeli Cyfryngau Cymdeithasol CBSRhCT
 - Arddangos gwybodaeth yn holl fannau cyhoeddus y Cyngor. Llyfrgelloedd, Canolfannau Hamdden ac ati.
- Cymuned – Sefydliadau rhybuddio y gwyddys eu bod yn darparu gweithgareddau cymunedol i hysbysu defnyddwyr gwasanaethau/adeiladau.
 - Anfon e-bost at 794 o grwpiau cymunedol a/neu unigolion yn gofyn iddynt osod poster i Llywodraeth Cymru ac annog pobl hŷn, gofalwyr, aelodau o'r teulu i wirio cymhwysedd eu cartref a'u cyfeirio at gymorth ar-lein ac yn y gymuned.

Effaith:

- Anfonwyd 1315 o lythyrau at breswylwyr sy'n derbyn Cymorth Gwasanaeth Oedolion
- Anfonwyd 2769 o lythyrau at breswylwyr y gwyddys eu bod yn cael Rhyddhad Treth y Cyngor

Canlyniadau Allweddol:

- Gall gweithio mewn partneriaeth ranbarthol, gan ganolbwyntio sylw ar un maes penodol, gynhyrchu gwell gwasanaethau a chymorth i drigolion.
- Rhannu gwybodaeth ac adnoddau. Llai o bwysau ar un unig asiant dosbarthu.
- Defnydd o ymatebwyr Cymunedol.

FFRWD WAITH 8



Adran Gwaith
a Phensiynau

Department
for Work &
Pensions

YR ADRAN GWAITH A PHENSIYNAU (DWP)

Gweithgareddau ac Allgymorth:

Cyflwynodd cydweithwyr DWP drosolwg cychwynnol o'r Ymgyrch Credyd Pensiwn ym mis Hydref 2024 i Lywodraeth Cymru a chynrychiolwyr y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru. Yn dilyn hyn, mae is-grŵp wedi'i greu ar gyfer cyfnod yr Ymgyrch Credyd Pensiwn i hyrwyddo ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth reoli, materion, ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau ac ati ar draws y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru a sefydliadau partner cysylltiedig, ynghyd â'n cydweithwyr Polisi Credyd Pensiwn yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Fel rhan o ymgyrch gyfathrebu DWP, gyda'r nod o gynyddu ceisiadau Credyd Pensiwn, roeddem yn cydweithio'n frwd ag elusennau a sefydliadau cymorth a'r cyfryngau i hybu ymwybyddiaeth a hyrwyddo Credyd Pensiwn. Rydym yn annog pawb i ystyried a ydynt yn adnabod unigolion, fel rhieni neu neiniau a theidiau, a allai fod yn gymwys i gael Credyd Pensiwn. Rydym yn argymhell defnyddio'r gyfrifiannell Credyd Pensiwn i bennu cymhwysedd posibl a sicrhau bod y rhai sy'n gymwys yn cael y cymorth y mae ganddynt hawl iddo. Mae ein Timau Partneriaeth mewn adrannau Gwaith ac Iechyd wedi rhoi cynlluniau ar waith ar gyfer ymgysylltu a hyrwyddo lleol ym mhob ardal, gan weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i estyn allan at bobl a allai fod yn gymwys.

Yn dilyn y model hwn, mae tîm Datganoli Cymru wedi gweithio gyda Chymunedau Digidol Cymru i adolygu'r modd gweminar at ddibenion Credyd Pensiwn. Mewn digwyddiad AS yn LINC Cynon yn Aberdâr, siaradwyd ag 20 o bobl a chyfeiriwyd y rhai nad oeddent yn gallu cwblhau cyfrifiad ar y pryd at y gyfrifiannell Credyd Pensiwn, a rhoddwyd iddynt daflen Credyd Pensiwn Swyddogol yr Adran Gwaith a Phensiynau yn egluro ble y gellid dod o hyd i'r gyfrifiannell yn <https://www.gov.uk/pension-credit-calculator> ac argymhellwyd gwneud cais am Credyd Pensiwn os oeddent yn gymwys. Fodd bynnag, cwblhawyd cyfrifiannell Credyd Pensiwn gydag 16 o unigolion a oedd yn gallu ei chwblhau ar y diwrnod gyda 45% o bosibl yn gymwys, yna chyfeiriwyd y rhain at ddarparwyr a oedd yn bresennol yn y digwyddiad.

Effaith:

Ychydig o enghreifftiau o rai o'r gweithgareddau a wneir yn lleol, oherwydd y dyfeisgarwch lleol mae gormod o amrywiadau i'w crybwyll yma.

- Ymgysylltodd timau E&P â phob Awdurdod Lleol, llyfrgelloedd, meddygfeydd, fferyllfeydd a mwy.
- Mynychodd swyddfeydd ymweld ddigwyddiadau a ddarparodd 121 o gefnogaeth i gwsmeriaid.
- Digwyddiadau a gynhelir ledled y wlad i ymgysylltu â phensiynwyr a'u teuluoedd a'u cefnogi.
- Wedi gweithio law yn llaw ag Awdurdodau Lleol i gyflwyno digwyddiadau wedi'u targedu.

Canlyniadau:

- Daeth adborth â'r ymgyrch yn fyw a dangosodd lefelau o ddyfeisgarwch.
- Cafodd yr adnoddau a ddarparwyd dderbyniad da.
- Roedd llywodraethu cyffyrddiad ysgafn a chwmpas ffocws yn atal ymgripiad cwmpas.
- Roedd cynhyrchu cynhyrchion yn ganolog yn atal dyblygu.

Argymhellion:

Mae rhai awgrymiadau wedi'u gwneud gan gydweithwyr yn dilyn eu cefnogaeth i'r ymgyrch mewn perthynas â'r gyfrifiannell.

- Roedd yr ymgyrch allgymorth yn canolbwyntio ar ddefnyddio'r gyfrifiannell cyn gwneud hawliad a'r gobaiht yw y bydd yn lleihau nifer yr hawliadau diangen. Teimlwyd y dylai'r ymgyrch allanol a'r pecyn cymorth ar Gov.uk roi mwy o bwyslais ar ddefnyddio'r gyfrifiannell cyn gwneud cais ffurfiol.

FFRWD WAITH 9

LANDLORDIAID CYMDEITHASOL COFRESTREDIG (LCC)



Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Gweithgareddau ac Allgymorth:

Fe wnaethom gysylltu â nifer o LCC partner ar draws CTM i ddeall eu hymgyrchoedd mewnol i gefnogi cwsmeriaid 66+ oed i hawlio Credyd Pensiwn.

Roedd ymgyrchoedd mewnol yn cynnwys –

- Defnyddio data i nodi cwsmeriaid dros 66 oed a'r rhai nad oeddent wedi rhyngweithio llawer â'u landlord yn ddiweddar. Trefnwyd wedyn bod timau incwm yn gwneud galwadau lles i'r cwsmeriaid hyn ac yn cefnogi eu hawliadau am fudd-dal.
- Defnyddiodd LCC gylchlythyrau cwsmeriaid, sianeli cyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau negeseuon testun i helpu i hybu ymwybyddiaeth am y nifer sy'n hawlio Credyd Pensiwn ar draws eu sylfaeni cwsmeriaid
- Sicrhodd LCC fod posteri a gwybodaeth am Gredyd Pensiwn ar gael yn eu llety i bobl hŷn yn ogystal â chynnal sesiynau cyngor ariannol yn y lleoliadau hyn.

Yn ogystal, ymunodd sawl LCC â digwyddiadau galw heibio a gynhaliwyd gan ein partneriaid trydydd sector, gan gynnig gwasanaethau cyngor ariannol fel rhan o'r digwyddiadau. Roedd Tîm Iechyd y Cyhoedd hefyd yn gallu atgyfeirio cleifion o'r rhestr darged yn uniongyrchol at eu landlord Cymdeithas Tai am gyngor a chymorth ariannol.

CYFATHREBU


PWYSIGRWYDD STRATEGAETH GYFATHREBU MEWN PROSIECTAU CYDWEITHREDOL RHWNG IECHYD A'R TRYDYDD SECTOR:

